# Cefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio'r arddull gwaith chwarae. Gall yr arddull gwaith chwarae fod yn berthnasol i ystod eang o leoliadau ble mae ymarferwyr yn cefnogi chwarae plant (lleoliadau gwaith chwarae). Yn ogystal, gellir defnyddio'r arddull gwaith chwarae ar gyfer gwaith datblygu ac eiriolaeth sy'n cefnogi chwarae plant drwy weithio gyda, a dylanwadu ar, gymunedau ac oedolion eraill. Wrth hwyluso chwarae, mae'r safon hon hefyd yn ystyried gofynion sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a diogeledd.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Paratoi i chwarae ddigwydd
2. Cadarnhau rolau a chyfrifoldebau gydag aelodau eraill o'r tîm
3. Dilyn gweithdrefnau iechyd, diogelwch a diogeledd
4. Cyfrannu at agor a chau sesiynau chwarae
5. Arsylwi chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
6. Rhannu arsylwadau o'r chwarae gydag aelodau eraill o'r tîm
7. Cynnal asesiad budd-risg dynamig
8. Rhoi ymyriadau gwaith chwarae ar waith sy'n cefnogi chwarae plant
9. Ymateb i geisiadau a syniadau geiriol a dieiriau'r plant
10. Ymateb i giwiau chwarae'r plant
11. Rhannu ceisiadau ac adborth oddi wrth y plant a rhieni gydag aelodau eraill o'r tîm
12. Cyfathrebu gyda'r tîm wrth gefnogi chwarae
13. Dynodi ac ymateb i argyfyngau yn eich ardal cyfrifoldeb eich hun, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
14. Myfyrio ar eich ymarfer gwaith chwarae eich hun.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
2. Hawliau plant a sut y maent yn berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harddangos mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau a pholisïau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
5. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
6. Sut i gynnwys pob plentyn mewn ymarfer gwaith chwarae yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
7. Pwysigrwydd myfyrio a ffyrdd i'w ymgorffori mewn ymarfer
8. Pwysigrwydd chwarae
9. Pwysigrwydd cynnwys y plant wrth wneud penderfyniadau
10. Pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau a rhannau rhydd gwreiddiol ar gael ar gyfer chwarae
11. Pwysigrwydd arsylwi chwarae, gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
12. Sut i roi ymyriadau gwaith chwarae ar waith mewn ymarfer
13. Y cylchdro chwarae a sut i'w ddefnyddio i ddeall eich rôl eich hun wrth ymateb i'r broses chwarae
14. Beth yw asesu budd-risg dynamig a sut i'w roi ar waith mewn ymarfer gwaith chwarae
15. Pwysigrwydd gweithio fel tîm
16. Pryd y gallai fod yn briodol i gynllunio gweithgareddau mewn ymarfer gwaith chwarae
17. Polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad chi ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd
18. Eich rolau a'ch cyfrifoldebau chi ar gyfer delio gydag argyfyngau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
19. Eich cyfrifoldeb personol i'ch cadw eich hun, unigolion ac eraill yn ddiogel yn y gweithle
20. Sut y caiff ymarfer gwaith chwarae'r unigolyn ei effeithio gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, damcaniaeth gwaith chwarae ac ymarfer myfyriol
21. Sut y caiff ymarfer gwaith chwarae ei effeithio gan brofiad bywyd yr unigolyn

22. Pwysigrwydd myfyrio parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
23. Bod gwaith chwarae'n cael ei ymarfer yn aml mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC201

Cefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cydnabod pwysigrwydd creu perthnasoedd gyda phlant, aelodau tîm, cydweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill wrth ddefnyddio arddull gwaith chwarae. Mae'n cwmpasu gweithio fel tîm, ymarfer cynhwysol, rhannu gwybodaeth, ymarfer proffesiynol a sgiliau sy'n ymwneud ag eiriol dros chwarae a gwaith chwarae.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Ymgysylltu â'r plant mewn modd agored, parchus ac ymatebol
2. Gwrando ar y plant er mwyn helpu i ddeall eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau
3. Cadarnhau eich rolau a'ch cyfrifoldebau chi, a rhai'r tîm, o ran ymateb i ymddygiad chwarae plant
4. Dynodi pethau o'ch ymarfer gwaith chwarae personol sy'n cyfrannu at hapusrwydd, mwynhad neu foddhad y plant
5. Parchu a gwerthfawrogi unigolion, eu cefndiroedd a'u diwylliant
6. Datblygu perthnasoedd gweithio gyda'ch tîm a'ch cydweithwyr trwy fod yn agored ac ymatebol
7. Trafod gyda chydweithwyr ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn ymarfer gwaith chwarae
8. Ymgysylltu ag aelodau'r tîm ynghylch chwarae a gwaith chwarae i rannu syniadau, cynyddu dealltwriaeth a chryfhau gwaith tîm
9. Ymgysylltu â rhieni mewn modd agored, parchus ac ymatebol yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
10. Ymgysylltu â rhieni ac eraill i eiriol dros chwarae plant yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
11. Rhannu gwybodaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
12. Myfyrio ar eich rhyngweithiadau chi, a phobl eraill, gyda'r plant.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
2. Hawliau plant a sut y maent yn berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harddangos mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau a pholisïau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
5. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
6. Sut i gynnwys pob plentyn mewn ymarfer gwaith chwarae yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
7. Pwysigrwydd myfyrio a ffyrdd i'w ymgorffori mewn ymarfer
8. Bod gwaith chwarae'n cael ei ymarfer yn aml mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid
9. Beth yw arddull gwaith chwarae
10. Pam a sut y mae cyfathrebu clir ac agored yn bwysig wrth ddatblygu perthnasoedd
11. Beth yw ymarfer proffesiynol mewn gwaith chwarae, a sut y mae'n berthnasol i'ch rôl chi
12. Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol, a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
13. Beth yw ymddygiadau chwarae
14. Rhwystrau i chwarae plant
15. Sut mae chwarae'n cyfrannu at les plant
16. Sut i eiriol dros chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
17. Sut a phryd i addasu'r modd y byddwch yn cyfathrebu er mwyn cynnal perthnasoedd
18. Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer delio gyda gwrthdaro a'ch rôl chi wrth fynd i'r afael â hyn
19. Pwysigrwydd cyfrinachedd a'i roi ar waith yn eich ymarfer
20. Pwysigrwydd gwaith tîm a chreu perthnasoedd proffesiynol
21. Sut y mae eich ymarfer gwaith chwarae chi'n cael ei effeithio gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, damcaniaeth gwaith chwarae ac ymarfer myfyriol

22. Sut y mae ymarfer gwaith chwarae'n cael ei effeithio gan brofiad bywyd yr unigolyn
23. Pwysigrwydd myfyrio parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC202

Cyfrannu at ddatblygu perthnasoedd gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â defnyddio damcaniaeth gwaith chwarae, yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a modelau perthnasol i fyfyrio ar ymarfer gwaith chwarae. Pwrpas y safon yw atgyfnerthu ymarfer myfyriol a’i rôl gyffredinol mewn datblygiad personol a phroffesiynol.

**Mae’r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo’n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a’u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o’r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Myfyrio'n weithredol ar eich ymarfer personol wrth weithio
2. Defnyddio arddull gwaith chwarae i gasglu safbwyntiau'r plant a phobl eraill i hysbysu ymarfer gwaith chwarae
3. Rhannu eich myfyrdodau personol gydag aelodau eraill o'r tîm
4. Myfyrio ar eich profiadau eich hun er mwyn hysbysu ymarfer gwaith chwarae
5. Dynodi cryfderau a bylchau yn eich sgiliau a'ch gwybodaeth gwaith chwarae personol
6. Cymryd rhan mewn cyfleoedd i gyfoethogi eich sgiliau a'ch gwybodaeth eich hun
7. Myfyrio ar sut y mae ymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar eich ymarfer gwaith chwarae personol
8. Adolygu eich datblygiad proffesiynol parhaus personol, gyda chymorth aelod arall o'r tîm, i ddynodi cryfderau a bylchau yn eich sgiliau a'ch gwybodaeth eich hun.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
2. Hawliau plant a sut y maent yn berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harddangos mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau a pholisïau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
5. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
6. Sut i gynnwys pob plentyn mewn ymarfer gwaith chwarae yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
7. Pwysigrwydd myfyrio a ffyrdd i'w ymgorffori mewn ymarfer
8. Beth yw ymarfer myfyriol
9. Y gwahaniaeth rhwng ymarfer myfyriol a gwerthuso
10. Beth yw gwybodaeth a sgiliau gwaith chwarae
11. Y berthynas rhwng yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, damcaniaeth gwaith chwarae ac ymarfer myfyriol
12. Sut y mae eich ymarfer gwaith chwarae chi'n cael ei effeithio gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, damcaniaeth gwaith chwarae ac ymarfer myfyriol
13. Sut y mae ymarfer gwaith chwarae'n cael ei effeithio gan brofiadau bywyd yr unigolyn
14. Pwysigrwydd myfyrio parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

Myfyrio ar ymarfer gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

Cyfrannu at greu perthnasoedd gydag oedolion i ddatblygu a gwella ymarfer gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at berthnasoedd cadarnhaol ac effeithiol gydag oedolion i gefnogi, datblygu a gwella ymarfer gwaith chwarae. Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd gyda chydweithwyr, gweithwyr proffesiynol o sefydliadau eraill, grwpiau cymunedol, ac oedolion unigol sy’n dylanwadu ar gyfleoedd chwarae plant.

Mae’r safon yn cydnabod rôl gweithwyr chwarae, sydd heb gyfrifoldeb am ymarfer gweithwyr eraill ond sy’n gwneud cyfraniad arwyddocaol i waith tîm, eiriol dros chwarae, ymarfer myfyriol a chyfathrebu gydag eraill.

Mae’r ffocws ar gydweithio gyda phobl eraill, rhannu safbwyntiau, cefnogi eiriol dros chwarae a gwaith chwarae, a myfyrio ar sut y mae perthnasoedd gydag oedolion yn effeithio ar brofiadau chwarae plant.

**Mae’r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo’n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a’u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o’r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Cyfrannu at eiriol dros hawliau, lleisiau, safbwyntiau a dymuniadau'r plant mewn trafodaethau gydag oedolion
2. Datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda chydweithwyr trwy fod yn agored, parchus ac ymatebol
3. Ymgysylltu ag aelodau'r tîm i rannu syniadau am chwarae a gwaith chwarae, gan gefnogi cyd-ddealltwriaeth a gwaith tîm effeithiol
4. Rhannu gwybodaeth, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. Addasu eich arddull cyfathrebu personol pan mae angen er mwyn helpu i gynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol
6. Gweithio'n gydweithrediadol gyda chydweithwyr, gan gydnabod gwahanol rolau, cyfrifoldebau a lefelau o atebolrwydd
7. Myfyrio ar arsylwadau o staff eraill er mwyn deall yn well ryngweithiadau gyda phlant ac ymarfer gwaith chwarae
8. Myfyrio ar eich perthnasoedd eich hun gyda chydweithwyr ac oedolion eraill, gan ddynodi dysg ar gyfer eich ymarfer personol
9. Myfyrio ar sut y mae eiriol dros chwarae a gwaith chwarae wedi dylanwadu ar eich dealltwriaeth a'ch gweithredoedd eich hun
10. Cyfrannu at ddatblygu perthnasoedd gydag unigolion a sefydliadau yn y gymuned ehangach sy'n cefnogi chwarae
11. Cyfrannu at hyrwyddo ac eiriol dros chwarae a gwaith chwarae wrth ymgysylltu gydag oedolion.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
2. Hawliau plant a sut y maent yn berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harddangos mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau a pholisïau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
5. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
6. Sut i gynnwys pob plentyn mewn ymarfer gwaith chwarae yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
7. Pwysigrwydd myfyrio a ffyrdd i'w ymgorffori mewn ymarfer
8. Dulliau seiliedig ar gryfderau tuag at weithio gyda phlant
9. Modelau o ymarfer myfyriol sy'n berthnasol i waith chwarae
10. Effaith trawma ar fywydau plant a rôl amddiffynnol a therapiwtig chwarae
11. Bod gwaith chwarae'n cael ei ymarfer fel arfer mewn ystod eang o leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid
12. Ffyrdd o gefnogi a chyfrannu at berthnasoedd cadarnhaol mewn timau a gyda chydweithwyr
13. Sut i ymateb yn briodol i wrthdaro, gan lynu at bolisïau a gweithdrefnau sefydliadol, a deddfwriaethau perthnasol
14. Unigolion a sefydliadau allai ddylanwadu ar ymarfer gwaith chwarae
15. Gofynion ar gyfer cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth wrth gyfathrebu gydag eraill
16. Ystod amrywiol o ddulliau ar gyfer creu a chynnal perthnasoedd gweithio
17. Sut i gyfathrebu'n effeithiol ac addasu cyfathrebu i gefnogi perthnasoedd cadarnhaol
18. Ffyrdd o gefnogi cyfathrebu rhwng plant, oedolion a sefydliadau, gan alluogi plant i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau
19. Gwahanol ddulliau ar gyfer eiriol dros chwarae a gwaith chwarae i amrywiol gynulleidfaoedd.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC204

Cyfrannu at greu perthnasoedd gydag oedolion i ddatblygu a gwella ymarfer gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

Cyfrannu at baratoi ar gyfer a chynnal teithiau y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at baratoi ar gyfer a chynnal teithiau y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae, gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae sy'n cefnogi lles, dewis a chwarae'r plant yn ystod y daith.

Mae'n cydnabod rôl gweithwyr chwarae sydd heb fod â chyfrifoldeb llawn am drefnu teithiau neu ymweliadau ond sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gynllunio, cyfathrebu, diogelwch ac ymarfer ymatebol wrth deithio.

Mae'r safon yn pwysleisio nad yw'r ffocws ar y gyrchfan yn unig, ond sut y mae'r plant yn profi'r teithio, yn cynnwys sut y mae oedolion yn cefnogi annibyniaeth, perthnasoedd ac ymgysylltiad y plant trwy gydol y broses.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Cyfrannu at ddynodi lleoliadau posibl ar gyfer teithiau neu ymweliadau, wedi ei hysbysu gan adborth y plant ac adnabyddiaeth o'r ardal leol
2. Cyfrannu at drafodaethau gyda chydweithwyr neu reolwyr i gefnogi prosesau llunio penderfyniadau a chymeradwyo
3. Cyfrannu at gynllunio trefniadau teithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
4. Cyfrannu at sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael ac yn cael ei defnyddio wrth deithio
5. Cefnogi cyfathrebu'r trefniadau teithio i'r plant a chydweithwyr
6. Cefnogi'r plant i ddod a'u heiddo personol angenrheidiol fydd ei angen ar gyfer teithio
7. Cyfrannu at sicrhau bod offer ac adnoddau perthnasol ar gael ar gyfer teithio
8. Cyfrannu at gynllunio ar gyfer trefniadau wrth gefn posibl allai godi wrth deithio
9. Cytuno gyda'r plant ar ffyrdd i'w cadw eu hunain a'u heiddo'n ddiogel wrth deithio
10. Defnyddio arddull gwaith chwarae i ymateb i anghenion, diddordebau ac ymddygiadau'r plant wrth deithio
11. Cyfrannu at wirio bod cyfrif o bob plentyn cyn, yn ystod ac ar ôl teithio
12. Glynu at bolisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol sy'n berthnasol i deithio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
2. Y gwahaniaethau rhwng teithio o fewn y gymuned leol a theithio ymhellach
3. Polisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol sy'n berthnasol i deithio
4. Gweithdrefnau plant coll a sut y maent yn gweithredu y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae
5. Dulliau sefydliadol tuag at asesu budd-risg ar gyfer teithio
6. Y mathau o wybodaeth sydd angen eu casglu am y plant yng nghyd-destun teithio
7. Pryd a sut y dylid cyfathrebu trefniadau teithio i bobl eraill, a pham fod hyn yn bwysig
8. Pam fod angen caniatâd gan riant ar gyfer teithio y tu allan i'r lleoliad
9. Y mathau o eiddo personol y gallai'r plant fod ei angen ar gyfer teithio
10. Yr offer a'r adnoddau allai fod eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o deithio
11. Materion cyffredin allai godi wrth deithio a sut y mae cynlluniau wrth gefn yn cefnogi ymatebion priodol
12. Trefniadau ar gyfer delio gyda digwyddiadau ac argyfyngau wrth deithio
13. Ffyrdd i gefnogi plant i gadw'u hunain yn ddiogel wrth deithio
14. Mathau ychwanegol o gefnogaeth y gallai rhai plant fod ei angen wrth deithio.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC205

Cyfrannu at baratoi ar gyfer a chynnal teithiau y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

# Cyfrannu at arddull gwaith chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at arddull gwaith chwarae sy'n cefnogi plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol i gael mynediad i, ymgysylltu gydag a chael budd o chwarae.

Mae'n cydnabod rôl gweithwyr chwarae sydd heb gyfrifoldeb dros ymarfer gweithwyr eraill, ond sy'n gwneud cyfraniadau sylweddol i ymarfer gwaith chwarae cynhwysol, seiliedig ar hawliau. Mae hyn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â'r plant, cefnogi cyfathrebu, cyfrannu at amgylcheddau cynhwysol, a myfyrio ar ymarfer gydag eraill.

Mae'r safon yn adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth gwaith chwarae creiddiol mewn NOS eraill ac yn tystio i gymwyseddau ychwanegol ar gyfer y rheini sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. Cyfrannu at ddysgu am anghenion cymorth ychwanegol y plant, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
2. Cyfrannu at weithio gyda rhieni a gofalwyr er mwyn deall anghenion a hoff ddewisiadau chwarae plant yn well
3. Cyfrannu safbwynt gwaith chwarae i drafodaethau ynghylch anghenion cymorth ychwanegol plant
4. Cyfrannu at ystyried yr amgylchedd chwarae ac adnoddau, ac i ddynodi addasiadau allai gefnogi chwarae plant
5. Cefnogi chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol, gan ymateb i'w ciwiau, diddordebau a dewisiadau
6. Cyfrannu at drafodaethau gyda chydweithwyr ynghylch sut y mae anghenion cymorth ychwanegol y plant yn cael eu cyflawni'n ymarferol
7. Ymateb i blant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu hawl i chwarae
8. Cyfathrebu gyda phlant mewn ffordd ymatebol a pharchus, gan ddefnyddio eu hoff ddulliau cyfathrebu
9. Cyfrannu at greu amgylchedd ble caiff pob plentyn eu cefnogi i wynebu a rheoli risg drostynt eu hunain
10. Myfyrio ar eich ymarfer gwaith chwarae eich hun gyda phlant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol
11. Myfyrio gydag eraill ar ymarfer gwaith chwarae gyda phlant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol
12. Cyfrannu at gyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr am chwarae plant, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
2. Hawliau plant a sut y maent yn berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harddangos mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau a pholisïau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
5. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
6. Sut i gynnwys pob plentyn mewn ymarfer gwaith chwarae yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
7. Pwysigrwydd myfyrio a ffyrdd i'w ymgorffori mewn ymarfer
8. Deddfwriaethau cenedlaethol perthnasol a sut y maent yn gymwys i'ch rôl chi
9. Gofynion cyfreithiol sy'n cefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith chwarae
10. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
11. Ffyrdd o gynnwys pob plentyn mewn gwaith chwarae sy'n seiliedig ar amgylchiadau, anghenion a hoff ddewisiadau unigol
12. Dulliau seiliedig ar gryfderau tuag at weithio gyda phlant
13. Modelau o ymarfer myfyriol sy'n berthnasol i waith chwarae
14. Effaith trawma ar fywydau plant a rôl amddiffynnol a therapiwtig chwarae
15. Fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol sy'n cefnogi lles plant
16. Pryd y gallai fod yn briodol i ymgysylltu gyda, neu geisio cyngor gan, weithwyr proffesiynol eraill trwy brosesau sefydliadol
17. Ffyrdd o ddysgu am anghenion a gofynion plant
18. Unigolion a sefydliadau all ddarparu cyngor arbenigol, hyfforddiant neu adnoddau
19. Canllawiau ac arfer da cyfredol sy'n berthnasol i waith chwarae gyda phlant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol
20. Addasiadau posibl i amgylcheddau ac adnoddau chwarae
21. Ble y gellir cael gafael ar offer neu adnoddau arbenigol
22. Y model cymdeithasol o anabledd a'i berthnasedd i ymarfer gwaith chwarae
23. Iaith sy'n cefnogi'r model cymdeithasol o anabledd a hawliau plant

24. Gwerth darpariaeth gwaith chwarae cynhwysol ac arbenigol
25. Pam fod myfyrio ar safbwyntiau ac agweddau personol yn bwysig ar gyfer herio rhagfarn ddiarwybod
26. Yr ystod eang o anghenion cymorth ychwanegol y gallai plant eu profi
27. Sut i herio gwahaniaethu a dilyn gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i ymarfer gwrth-wahaniaethol.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC206

Cyfrannu at arddull gwaith chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth diogelu ar waith, megis cydnabod anghenion unigolion, rhannu gwybodaeth, a gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi ymwybyddiaeth unigolion ac eraill o ddiogelwch personol a chyfrannu at adnabod arwyddion o niwed, camdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio, a gweithredu arnynt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion
2. cael gafael ar wybodaeth am ofynion diogelu’r gweithle
3. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth ac asesiadau risg am y gofynion diogelu ar gyfer unigolion
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i drafod eu gofynion diogelu
5. cefnogi unigolion i ddatblygu annibyniaeth, hyder a hunan-barch er mwyn sicrhau eu diogelwch personol
6. cefnogi unigolion i fynegi eu hanghenion, eu meddyliau a’u hemosiynau ynghylch diogelwch personol a diogelu
7. gwrando ac ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu barn, dewisiadau a phenderfyniadau unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol
8. cynorthwyo unigolion i nodi a chael gafael ar yr adnoddau a’r cymorth sydd eu hangen i sicrhau eu diogelwch personol
9. cyfrannu at nodi ymddygiad, sefyllfaoedd ac arwyddion a allai ddangos bod unigolion neu eraill mewn perygl o gael eu niweidio a'u cam-drin, neu eu bod wedi bod mewn perygl yn y gorffennol
10. cynorthwyo unigolion ac eraill i nodi a rhoi gwybod am weithredoedd, ymddygiad a sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol neu’n gamdriniol
11. 11.dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu pan fydd niwed neu gamdriniaeth yn cael ei amau neu ei ddatgelu
12. cyfrannu at rannu gwybodaeth diogelu ac asesiadau risg ag eraill i lywio eu gwaith nhw a'ch gwaith chi
13. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer diogelu unigolion ac eraill
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o niwed, camdriniaeth, esgeulustod ac ecsbloetiaeth
2. beth yw meithrin perthynas amhriodol, yr arwyddion, sut y gall godi a'r camau i'w cymryd
3. beth yw bwlio, yr arwyddion, sut y gall godi a’r camau i'w cymryd
4. y ffactorau a allai gynyddu'r perygl i unigolion neu eraill gael eu niweidio neu eu cam-drin
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddiogelwch personol a diogelu
6. yr arwyddion a allai ddangos bod unigolion neu eraill mewn perygl o gael eu niweidio neu eu cam-drin, neu eu bod wedi bod mewn perygl yn y gorffennol
7. y mathau o gamau, hepgoriadau, ymddygiad a sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol neu’n gamdriniol i unigolion neu eraill
8. cyfnodau pontio ym mywydau unigolion a allai olygu bod mwy o berygl iddynt gael eu niweidio neu eu cam-drin
9. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar ddiogelwch personol a diogelu
10. y ddyletswydd foesol a moesegol i ddiogelu unigolion ac eraill, ac i amddiffyn y cyhoedd yn ehangach
11. eich rôl i atal o ran diogelu unigolion ac eraill, a goblygiadau methu â gweithredu
12. y camau cywir i’w cymryd os bydd niwed neu gamdriniaeth yn cael ei amau neu ei ddatgelu
13. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i nodi a rhoi gwybod am niwed neu gamdriniaeth, a pham y gallai fod yn anodd iddynt wneud hynny
14. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ymdrin â phryderon diogelu
15. rôl hyder a hunan-barch o ran sicrhau diogelwch personol
16. y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol a sut mae cefnogi unigolion i fod yn ddiogel ar-lein
17. sut mae diogelu eich hun yn y gweithle neu wrth weithio ar eich pen eich hun
18. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gyfrannu at ddiogelu unigolion ac eraill
19. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
20. pwysigrwydd cadw tystiolaeth sy’n gysylltiedig â niwed a chamdriniaeth posibl

21. pryd y mae'n rhaid i chi rannu gwybodaeth a fyddai fel arall yn gyfrinachol, a sut mae helpu unigolion i ddeall hyn
22. pam ei bod yn bwysig cofnodi ac adrodd ffeithiau wrth ddiogelu unigolion ac eraill
23. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
24. beth i'w wneud os ydych chi wedi rhoi gwybod am bryderon ond nad oes camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
27. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion
28. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gynorthwyo â’r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth ddiogelu unigolion ac eraill

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cynorthwyo â'r gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD24 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Diogelu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |

Paratoi ar gyfer, cynllunio, cefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â defnyddio’r arddull gwaith chwarae i weithio gyda phlant i baratoi ar gyfer, cynllunio a chefnogi chwarae. Gall yr arddull gwaith chwarae fod yn berthnasol i ystod eang o leoliadau ble mae ymarferwyr yn cefnogi chwarae plant. Yn ogystal, gellir defnyddio’r arddull gwaith chwarae ar gyfer gwaith datblygu, digonolrwydd cyfleoedd chwarae ac eiriolaeth sy’n cefnogi chwarae plant drwy weithio gyda, a dylanwadu ar, gymunedau ac oedolion eraill. Wrth baratoi a chynllunio ar gyfer chwarae, mae’r safon hon hefyd yn ystyried gofynion sy’n ymwneud â iechyd, diogelwch a diogeledd.

**Mae’r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo’n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a’u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o’r derminoleg a ddefnyddir.**

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. Paratoi i chwarae ddigwydd
2. Cadarnhau rolau a chyfrifoldebau gydag aelodau eraill o’r tîm
3. Cael mynediad i a dilyn gweithdrefnau iechyd, diogelwch a diogeledd a chynorthwyo eraill i wneud hynny
4. Casglu a gwneud yn siŵr bod rhannau rhydd ac adnoddau eraill ar gael
5. Cefnogi plant i drosi i mewn i, ac allan o’r lleoliad gwaith chwarae
6. Arsylwi chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
7. Cynnal arsylwadau o’r man chwarae a’r adnoddau
8. Cynnal arsylwadau o’r plant er mwyn ddeall eu chwarae
9. Cynnal asesiad budd-risg dynamig
10. Myfyrio wrth weithredu, ac ar weithredu er mwyn hysbysu asesu budd-risg dynamig
11. Rhoi ymyriadau gwaith chwarae ar waith sy’n cefnogi chwarae plant
12. Ymateb i geisiadau a syniadau geiriol a dieiriau’r plant
13. Ymateb i giwiau chwarae’r plant
14. Ymateb i geisiadau ac adborth oddi wrth y plant, y staff a rhieni er mwyn hysbysu cynllunio
15. Cyfathrebu gyda’r tîm tra’n cefnogi chwarae
16. Dynodi ac ymateb i argyfyngau yn eich ardal cyfrifoldeb eich hun, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
17. Myfyrio ar yr arddull gwaith chwarae tuag at baratoi, cynllunio a chefnogaeth
18. Cydweithio a myfyrio ar ymarfer gwaith chwarae gyda’ch tîm neu gydweithwyr
19. Adolygu eich ymarfer personol er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y gellir rhoi pob un o'r egwyddorion ar waith yn eich rôl chi
2. Hawliau plant a sut y maent yn berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harddangos mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau cenedlaethol perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch rôl chi
5. Y gofynion cyfreithiol perthnasol i sicrhau bod tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hybu mewn ymarfer gwaith chwarae
6. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
7. Sut i gynnwys pob plentyn mewn ymarfer gwaith chwarae yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
8. Sut i weithio gyda phlant mewn modd sy'n cydnabod eu cryfderau a'u rhinweddau
9. Modelau ymarfer myfyriol sy'n berthnasol i waith chwarae
10. Effaith trawma ar fywydau plant a sut gall chwarae fod yn warchodol a therapiwtig
11. Fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol i gefnogi lles plant
12. Y ddamcaniaeth rhannau rhydd a sut y mae'n berthnasol i chwarae plant
13. Ffyrdd o ganfod, casglu a sicrhau bod rhannau rhydd ac adnoddau gwreiddiol ar gael ar gyfer chwarae
14. Dulliau o arsylwi chwarae, gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
15. Modelau o ymyriadau gwaith chwarae a sut i'w rhoi ar waith mewn ymarfer
16. Y cylchdro chwarae a sut i'w ddefnyddio i ddeall ac ymateb i'r broses chwarae
17. Sut i gynnal asesiad budd-risg dynamig
18. Sut i gynnwys plant wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae
19. Pwysigrwydd gweithredu mewn ymateb i ymgynghoriad, ceisiadau ac adborth
20. Pwysigrwydd gweithio fel tîm i gynllunio ar gyfer gwaith chwarae
21. Pryd y gallai fod yn briodol i gynllunio gweithgareddau mewn gwaith chwarae a sut i hwyluso hyn yn unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae
22. Gweithdrefnau eich sefydliad chi ar gyfer cynllunio a pharatoi

23. Gweithdrefnau eich sefydliad chi ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd
24. Eich rolau a'ch cyfrifoldebau chi ar gyfer delio gydag argyfyngau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
25. Eich cyfrifoldeb personol i'ch cadw eich hun, unigolion ac eraill yn ddiogel yn y gweithle
26. Sut y mae rheoli risg a chynllunio'n gysylltiedig
27. Bod gwaith chwarae'n cael ei ymarfer yn aml mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC301

Paratoi ar gyfer, cynllunio, cefnogi a hwyluso chwarae gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

PWNC302

Datblygu perthnasoedd gyda phlant sy'n cefnogi eu chwarae, eu hiechyd a'u lles gan ddefnyddio arddull gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ar gyfer iechyd a lles plant. Gall datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant drwy chwarae gefnogi plant i fod yn iachach a hapusach. Mae'r safon yn ystyried hefyd sut y mae ymarferwyr gwaith chwarae'n ymateb i ymddygiad chwarae plant mewn modd cefnogol.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Myfyrio ar werth therapiwtig chwarae
2. Ymgysylltu â’r plant mewn modd agored, parchus ac ymatebol
3. Cynnal arsylwadau i hysbysu gwybodaeth am ymddygiadau chwarae, iechyd a lles plant
4. Gwrando ar y plant er mwyn helpu i ddeall eu hanghenion
5. Cadarnhau eich rolau a’ch cyfrifoldebau chi, a rhai’r tîm, o ran ymateb i ymddygiad chwarae plant
6. Rhoi ymyriadau gwaith chwarae priodol ar waith sy’n cefnogi ymddygiadau chwarae plant
7. Dynodi a gweithredu strategaethau i ddelio gydag ymddygiad yr ydych chi’n ei ystyried yn heriol
8. Addasu’r amgylchedd, adnoddau a’ch ymarfer personol i gefnogi lles plant
9. Dynodi pethau yr ydych chi’n eu gwneud yn eich ymarfer gwaith chwarae personol sy’n cyfrannu at hapusrwydd, mwynhad neu foddhad y plant
10. Darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae sy’n cynnwys risg a her er mwyn cefnogi gwydnwch plant
11. Parchu a gwerthfawrogi unigolion, eu cefndiroedd a’u diwylliant
12. Cefnogi defnydd parhaus o amgylcheddau, adnoddau, a rhannau rhydd i gyflawni anghenion y plant
13. Gwerthuso eich ymarfer personol ac amgylcheddau sy’n cefnogi ystod eang o ymddygiadau chwarae
2. Sicrhau bod gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol yn adlewyrchu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a hawliau plant
3. Hybu diwylliant ble mae cynhwysiant, tegwch a chyfranogiad wedi'u gwreiddio ar draws y lleoliad gwaith chwarae
4. Sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer casglu, rheoli ac adolygu gwybodaeth am anghenion cymorth ychwanegol y plant yn unol â deddfwriaethau a gweithdrefnau sefydliadol
5. Cydymffurfio gyda deddfwriaethau perthnasol, fframweithiau cenedlaethol a gofynion diogelu sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
6. Sicrhau bod dulliau budd-risg yn cefnogi plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol i reoli risg a chael mynediad i gyfleoedd chwarae cyfoethog
7. Arwain, cefnogi a goruchwylio staff i drosglwyddo ymarfer gwaith chwarae ymatebol, cynhwysol
8. Sicrhau bod strwythurau, cymarebau a sgiliau staffio yn diwallu anghenion y plant
9. Dynodi eich anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygiad proffesiynol chi a'ch tîm, mewn perthynas ag anghenion cymorth ychwanegol ac ymarfer gwaith chwarae cynhwysol
10. Cefnogi ymarfer myfyriol yn unigol ac ar y cyd gyda'ch tîm er mwyn gwella ansawdd gwaith chwarae'n barhaus
11. Goruchwylio dylunio, addasu a chasglu adnoddau ar gyfer amgylcheddau chwarae er mwyn sicrhau hygyrchedd, hyblygrwydd a chynhwysiant
12. Sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i wneud addasiadau i amgylcheddau ac adnoddau heb gyfyngu ar ddewis ac annibyniaeth y plant
13. Archwilio, sicrhau neu gomisiynu offer, cyngor neu gefnogaeth arbenigol ble fo angen
14. Arwain partneriaethau effeithiol gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd i gefnogi chwarae plant
15. Sefydlu systemau ar gyfer cyfathrebu ystyrlon gyda'r plant, gan ddefnyddio a chefnogi'r dulliau cyfathrebu y maent yn eu ffafrio

16. Cysylltu gyda gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau arbenigol pan fo’n briodol, gan sicrhau y cynhelir persbectif gwaith chwarae
17. Monitro, gwerthuso ac adolygu ymarfer gwaith chwarae cynhwysol ar draws y lleoliad
18. Myfyrio ar arwain a rheoli sy’n berthnasol i blant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y gellir rhoi pob un o'r egwyddorion ar waith yn eich rôl arweinyddol chi
2. Hawliau plant a sut i'w cymhwyso i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harwain a'u rheoli mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Safbwyntiau damcaniaethol cyfredol sy'n berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
5. Deddfwriaethau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch maes cyfrifoldeb chi
6. Damcaniaethau arwain a rheoli perthnasol i gefnogi staff sy'n defnyddio arddull gwaith chwarae
7. Y gofynion cyfreithiol perthnasol i sicrhau tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a sut y cânt eu hybu mewn ymarfer gwaith chwarae
8. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
9. Sut i arwain a modelu rôl ymarfer i gefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
10. Sut i arwain a rheoli lleoliadau gwaith chwarae i gynnwys pob plentyn yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
11. Beth yw dull seiliedig ar asedau tuag at blant a'u chwarae
12. Sut i gefnogi staff i weithio gyda phlant gan ddefnyddio dull seiliedig ar asedau
13. Modelau ymarfer myfyriol sy'n berthnasol i waith chwarae
14. Effaith trawma ar fywydau plant a sut gall chwarae fod yn warchodol a therapiwtig
15. Bod gwaith chwarae'n cael ei ymarfer yn aml mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid
16. Sut i arwain timau cynhwysol sy'n cydnabod cryfderau, rhinweddau ac unigoliaeth plant
17. Sut mae ymddygiadau arweinyddol yn dylanwadu ar agweddau, iaith ac ymarfer ar draws y gweithlu
18. Sut i gefnogi staff i herio tybiaethau, gwerthoedd a rhagfarn ddiarwybod
19. Dulliau ar gyfer goruchwylio, mentora a hyfforddi sy'n cryfhau ymarfer cynhwysol

20. Arferion gorau, ymchwil a chanllawiau cyfredol sy'n berthnasol i ddarpariaeth gwaith chwarae cynhwysol ac arbenigol
21. Gwerth a buddiannau gwaith chwarae cynhwysol ar gyfer plant, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau
22. Sut i eiriol dros yr hawl i chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC408

Arwain a rheoli arddull gwaith chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

Rheoli cydymffurfio â fframweithiau sicrhau ansawdd gwaith chwarae allanol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn amlinellu’r sgiliau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth sy’n angenrheidiol i reoli cydymffurfio â fframweithiau sicrhau ansawdd gwaith chwarae allanol. Mae’n cynnwys sefydlu gofynion sicrhau ansawdd sy’n gyson â’r Egwyddorion Gwaith Chwarae, gwerthuso darpariaeth gwaith chwarae, gweithio cydweithredol gyda staff a thimau, a chefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd ymarfer gwaith chwarae.

Mae’r safon hon ar gyfer unigolion sy’n gyfrifol am arwain, cydgysylltu neu oruchwylio prosesau sicrhau ansawdd gwaith chwarae. Gallai hyn gynnwys rheolwyr, uwch-ymarferwyr, swyddogion datblygu, aseswyr neu eraill sydd â chyfrifoldeb am sicrhau, adolygu neu gefnogi ansawdd mewn darpariaeth gwaith chwarae.

**Mae’r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo’n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a’u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o’r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Dynodi'r gofynion sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i waith chwarae, yn cynnwys disgwyliadau statudol, sefydliadol a rhai sydd wedi'u cymeradwyo gan y sector
2. Paratoi ac adolygu gwybodaeth berthnasol, yn cynnwys adolygiadau ansawdd blaenorol, hunanwerthusiadau a chynlluniau gwella
3. Sefydlu a chynnal perthnasoedd proffesiynol, parchus a llawn ymddiriedaeth gyda staff ac eraill sy'n ymwneud â'r broses sicrhau ansawdd
4. Egluro cwmpas, pwrpas a phroses sicrhau ansawdd mewn modd sy'n adlewyrchu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae
5. Arwain gweithgarwch sicrhau ansawdd mewn modd sy'n lleihau tarfu ar chwarae'r plant
6. Gweithio'n gydweithredol gyda staff i ddynodi ffynonellau tystiolaeth priodol sy'n adlewyrchu ansawdd ymarfer, amgylcheddau ac adnoddau gwaith chwarae
7. Gweithio'n gydweithredol gydag asiantaethau allanol sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd
8. Arwain ar werthuso darpariaeth gwaith chwarae gan ddefnyddio ystod o ddulliau heb darfu ar chwarae'r plant
9. Gwirio bod gwybodaeth a gasglwyd yn berthnasol ac yn adlewyrchu profiadau plant a'r rheini sy'n cefnogi eu chwarae
10. Dynodi cryfderau, ymarfer effeithiol, meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant mewn darpariaeth gwaith chwarae
11. Darparu adborth adeiladol, seiliedig ar gryfderau sy'n cefnogi myfyrio, dysgu a hyder proffesiynol mewn timau gwaith chwarae
12. Cwblhau cofnodion a dogfennaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch sicrhau ansawdd yn unol â gofynion sefydliadol a'r sector
13. Myfyrio ar eich rôl, eich gwerthoedd, eich tybiaethau a'ch ymarfer arwain chi mewn perthynas ag arwain sicrhau ansawdd mewn lleoliadau gwaith chwarae
14. Sefydlu systemau i gyfoethogi neu gynnal ymarfer o safon yn seiliedig ar adborth sicrhau ansawdd.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y gellir rhoi pob un o'r egwyddorion ar waith yn eich rôl arweinyddol chi
2. Hawliau plant a sut i'w cymhwyso i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harwain a'u rheoli mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Safbwyntiau damcaniaethol cyfredol sy'n berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
5. Deddfwriaethau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch maes cyfrifoldeb chi
6. Damcaniaethau arwain a rheoli perthnasol i gefnogi staff sy'n defnyddio arddull gwaith chwarae
7. Y gofynion cyfreithiol perthnasol i sicrhau tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a sut y cânt eu hybu mewn ymarfer gwaith chwarae
8. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
9. Sut i arwain a modelu rôl ymarfer i gefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
10. Sut i arwain a rheoli lleoliadau gwaith chwarae i gynnwys pob plentyn yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau unigol
11. Beth yw dull seiliedig ar asedau tuag at blant a'u chwarae
12. Sut i gefnogi staff i weithio gyda phlant gan ddefnyddio dull seiliedig ar asedau
13. Modelau ymarfer myfyriol sy'n berthnasol i waith chwarae
14. Effaith trawma ar fywydau plant a sut gall chwarae fod yn warchodol a therapiwtig
15. Bod gwaith chwarae'n cael ei ymarfer yn aml mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid
16. Pwrpas a gwerth sicrhau ansawdd wrth gefnogi ymarfer, amgylcheddau a pherthnasoedd gwaith chwarae o safon
17. Dulliau hunanwerthuso, ymarfer myfyriol a gwelliant parhaus sy'n berthnasol i leoliadau gwaith chwarae
18. Yr ystod amrywiol a gwerth tystiolaeth ansoddol a meintiol all arddangos ansawdd mewn gwaith chwarae
19. Sut i arsylwi ymarfer gwaith chwarae mewn modd moesegol a sensitif heb

ymyrryd yn chwarae’r plant

20. Tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gofynion seiliedig ar hawliau sy’n berthnasol i sicrhau ansawdd gwaith chwarae

21. Ystod eang o ddulliau gwerthuso yn cynnwys arsylwi ymarfer, trafodaeth fyfyriol ac adolygu dogfennaeth

22. Rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol a dysg a datblygiad wrth gynnal ymarfer gwaith chwarae o safon

23. Pwrpas a defnydd cynlluniau sicrhau ansawdd sydd wedi’u cymeradwyo gan y sector a gofynion rheoliadol wrth gryfhau, tystio a dathlu ansawdd mewn gwaith chwarae.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC409

Rheoli cydymffurfio â fframweithiau sicrhau ansawdd gwaith chwarae allanol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli adnoddau ariannol mewn lleoliad gwaith chwarae i gyflawni amcanion eich sefydliad neu faes cyfrifoldeb. Mae'n ymgorffori'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i ymarfer gwaith chwarae o safon uchel, gan sicrhau bod penderfyniadau ariannol bob amser yn adlewyrchu a chefnogi hawl plant i chwarae.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Adolygu a chadarnhau eich cyfrifoldebau ariannol eich hun a therfynau eich awdurdod chi o fewn y lleoliad gwaith chwarae
2. Arwain ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid allweddol wrth gytuno ar, rheoli ac adolygu cyllid er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol
3. Sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn cefnogi mynediad plant i chwarae o safon
4. Gwerthuso gwybodaeth ariannol yn feirniadol ochr yn ochr ag amcanion a chynlluniau gweithredol y lleoliad
5. Datblygu a chyfiawnhau cyllideb realistig ar gyfer eich lleoliad neu faes cyfrifoldeb penodol
6. Negodi'r gyllideb arfaethedig gyda phenderfynwyr a chyfathrebu'r gyllideb gytunedig yn glir i bob un o'ch cydweithwyr perthnasol
7. Sefydlu a chynnal systemau cadarn i fonitro a gwerthuso prosesau ariannol
8. Rheoli'r cyllid ar gyfer ystod amrywiol o adnoddau a staffio
9. Darparu adroddiadau perfformiad ariannol i'r rheini sydd â chyfrifoldeb gwneud penderfyniadau yn unol â gofynion sefydliadol
10. Adolygu perfformiad ariannol y lleoliad gwaith chwarae'n feirniadol yn erbyn amcanion a bennwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae, a sut y maent yn hysbysu gwneud penderfyniadau ariannol
2. Cwmpas, gweledigaeth, amcanion a chynlluniau gweithredol eich lleoliad gwaith chwarae eich hun, a'u goblygiadau ar gyfer rheolaeth ariannol
3. Y gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol sy'n effeithio ar reolaeth ariannol mewn lleoliadau gwaith chwarae
4. Sut gall penderfyniadau ariannol gefnogi neu danseilio hawl plant i chwarae'n rhydd, a chyfrifoldeb proffesiynol y rheolwr i warchod ansawdd chwarae o fewn cyfyngiadau cyllidebol
5. Eich cyfrifoldebau ariannol chi, a rhai eraill, a therfynau eich awdurdod chi o fewn y lleoliad
6. Pwrpas systemau cyllidebol a sut y maent yn cefnogi trosglwyddiad effeithiol gwasanaethau chwarae
7. Sut i ddiwygio cyllidebau mewn ymateb i newid neu ddatblygiadau annisgwyl
8. Canllawiau sefydliadol ar gyfer paratoi, cymeradwyo, monitro a diwygio
9. Sut i ddarganfod, gwerthuso'n feirniadol a chymhwyso gwybodaeth ariannol wrth ddatblygu cyllideb realistig, wedi ei hysbysu gan dystiolaeth, ar gyfer lleoliad gwaith chwarae
10. Sut i ymgynghori a chydweithredu gyda chydweithwyr i ddadansoddi'n feirniadol eich blaenoriaethau, risgiau a phroblemau wrth baratoi ac adolygu cyllidebau
11. Sut i sefydlu, rheoli a gwerthuso'n feirniadol systemau ar gyfer monitro perfformiad ariannol yn erbyn cyllidebau mewn lleoliad gwaith chwarae
12. Pwysigrwydd cynllunio wrth gefn a dealltwriaeth hanfodol o'r mathau o risg a hapddigwyddiadau allai godi mewn lleoliad gwaith chwarae
13. Pwysigrwydd adroddiadau ariannol rheolaidd, cywir a dealltwriaeth hanfodol o'r hyn y mae gwahanol randdeiliaid angen ei wybod, ym mha fformat a phryd
14. Mathau o weithgarwch twyllodrus, sut i'w dynodi, a'r gweithdrefnau sefydliadol a chyfreithiol ar gyfer adrodd amdanynt a'u rheoli
15. Sut i adolygu perfformiad ariannol yn feirniadol yn erbyn amcanion a bennwyd a dynodi gwelliannau ar gyfer cylchredau cyllideb i'r dyfodol
16. Sut i reoli ystod eang o adnoddau chwarae – yn cynnwys rhannau rhydd, amgylcheddau awyr agored a chymarebau staffio – a dealltwriaeth hanfodol o

oblygiadau ariannol cynnal lefelau darpariaeth priodol

17. Sut i werthuso'n feirniadol a mantoli effeithlonrwydd costau gyda'r rheidrwydd proffesiynol a moesegol i ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog, cyffrous ac amrywiol

18. Y dirwedd cyllido ar gyfer gwaith chwarae

19. Pwysigrwydd caffael moesegol a sut i gydbwyso penderfyniadau prynu gyda gwerthoedd y lleoliad ynghylch cynhwysiant, cynaladwyedd a lles plant.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

Rheoli adnoddau ariannol mewn lleoliad gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

Darparu arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar werthoedd mewn gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu cyfarwyddyd sy'n seiliedig ar werthoedd i bobl sy'n gweithio mewn lleoliad gwaith chwarae a'u hysgogi a'u cefnogi i gyflawni gweledigaeth a rennir o ymarfer gwaith chwarae o safon. Mae'n canolbwyntio ar elfennau perthynol, moesegol ac ymarfer arweinyddiaeth sy'n unigryw i waith chwarae, yn hytrach na'r swyddogaethau gweithredol a rheolaethol.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am arwain eraill. Mae'n eistedd ochr yn ochr â safon PWNC402 (Arwain a rheoli'r lleoliad gwaith chwarae), sy'n delio gydag arweinyddiaeth weithredol.

**Mae'r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo'n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a'u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Datblygu a mynegi gweledigaeth glir ar gyfer eich maes cyfrifoldeb eich hun sy’n seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac sy’n cyfleu ymdeimlad ysgogol o bwrpas i’r bobl sy’n gweithio ynddo
2. Sicrhau bod pobl sy’n gweithio yn eich maes chi’n deall sut mae’r weledigaeth a’r amcanion yn cysylltu gyda’r gennad sefydliadol ehangach a gyda hawliau plant a digonolrwydd cyfleoedd chwarae
3. Cyfathrebu’r weledigaeth yn groyw ac yn llawn brwdfrydedd
4. Defnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu i fynegi’r weledigaeth sefydliadol
5. Trosi’r weledigaeth sefydliadol yn ddisgwyliadau ymarfer bob dydd y gall staff eu deall, uniaethu â nhw a’u perchenogi
6. Creu a chynnal diwylliant yn eich maes cyfrifoldeb chi sy’n adlewyrchu’r Egwyddorion Gwaith Chwarae, ble mae’r staff yn teimlo’n ddiogel i gymryd risg, i fyfyrio’n feirniadol ar eu hymarfer ac i herio tybiaethau ynghylch plant a chwarae
7. Modelu rôl yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac ymarfer o safon uchel, gan arddangos trwy eich ymddygiad eich hun y safonau a’r arddull disgwyliedig
8. Annog a chefnogi staff i ddatblygu eu hathroniaeth gwaith chwarae a’u hunaniaeth broffesiynol eu hunain, ac i arwain yn eu meysydd arbenigol a’u profiad eu hunain
9. Cydnabod, dathlu ac adeiladu ar gryfderau, sgiliau a chyfraniadau unigolion o fewn eich tîm chi, gan ddefnyddio dull seiliedig ar asedau tuag at staff yn ogystal â’r plant
10. Datblygu a defnyddio ystod amrywiol o arddulliau arweinyddiaeth sy’n briodol i wahanol sefyllfaoedd, unigolion a chyfnodau o ddatblygu tîm
11. Ceisio adborth rheolaidd ar eich perfformiad fel arweinydd oddi wrth y bobl yr ydych yn eu harwain er mwyn datblygu eich ymarfer personol fel arweinydd.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y gellir rhoi pob un o’r egwyddorion ar waith yn eich rôl arweinyddol chi
2. Hawliau plant a sut i’w cymhwyso i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy’n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i’w harwain a’u rheoli mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Safbwyntiau damcaniaethol cyfredol sy’n berthnasol i chwarae a gwaith chwarae
5. Deddfwriaethau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i’ch maes cyfrifoldeb chi
6. Damcaniaethau arwain a rheoli perthnasol i gefnogi staff sy’n defnyddio arddull gwaith chwarae
7. Y gofynion cyfreithiol perthnasol i sicrhau tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a sut y cânt eu hybu mewn ymarfer gwaith chwarae
8. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
9. Sut i arwain a modelu rôl ymarfer i gefnogi tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
10. Sut i arwain a rheoli lleoliadau gwaith chwarae i gynnwys pob plentyn yn seiliedig ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a’u hoff ddewisiadau unigol
11. Beth yw dull seiliedig ar asedau tuag at blant a’u chwarae
12. Sut i gefnogi staff i weithio gyda phlant gan ddefnyddio dull seiliedig ar asedau
13. Modelau ymarfer myfyriol sy’n berthnasol i waith chwarae
14. Effaith trawma ar fywydau plant a sut gall chwarae fod yn warchodol a therapiwtig
15. Bod gwaith chwarae’n cael ei ymarfer yn aml mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys: meysydd chwarae antur, ysbytai, gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, carchardai a gwaith ieuenctid
16. Y gwahaniaethau sylfaenol rhwng rheoli ac arwain a pham fod y gwahaniaeth hwn o bwys mewn gwaith chwarae, ble mae gwerthoedd a diwylliant yn ganolog i ansawdd
17. Sut i ddatblygu gweledigaeth ysgogol, seiliedig ar werthoedd ar gyfer lleoliad gwaith chwarae a’i chyfathrebu mewn ffyrdd sy’n creu gwir ymroddiad yn hytrach nag ufudd-dod
18. Ystod amrywiol o arddulliau arwain a sut i ddethol a defnyddio’r rhain mewn

gwahanol sefyllfaoedd a gyda gwahanol unigolion
19. Sut i greu a chynnal diwylliant o ymarfer myfyriol a pham fod hyn yn sylfaenol i ansawdd gwaith chwarae yn ogystal â datblygiad staff
20. Sut i ddefnyddio dull seiliedig ar asedau i arwain staff, gan gydnabod ac adeiladu ar gryfderau unigol
21. Sut i rymuso staff yn effeithiol, yn cynnwys sefydlu terfynau priodol er mwyn i unigolion allu ymarfer barn broffesiynol ac annibyniaeth
22. Pwysigrwydd modelu rôl fel rhan o arwain gwaith chwarae a sut y mae ymddygiad arweinydd yn siapio diwylliant ac ymarfer y lleoliad
23. Sut i geisio, derbyn a gweithredu ar adborth ynghylch eich perfformiad chi fel arweinydd
24. Heriau gweithlu penodol y sector gwaith chwarae, yn cynnwys hunaniaeth broffesiynol, cyflog ac amodau, a phwysigrwydd arweinyddiaeth wedi ei arwain gan werthoedd wrth gadw staff
25. Yr ystod eang o gryfderau, anghenion, gwahaniaethau ac amgylchiadau o fewn eich tîm chi a sut i gefnogi ac eiriol dros unigolion
26. Eich gwerthoedd, ysgogiadau, a’ch emosiynau personol a’u dylanwad ar eich arweinyddiaeth, a’ch cryfderau personol a meysydd i’w datblygu fel arweinydd gwaith chwarae
27. Eich rôl, cyfrifoldebau a’ch lefel awdurdod chi, a sut y mae eich maes chi’n cyfrannu at weledigaeth ac amcanion y sefydliad ehangach.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

PWNC411

Darparu arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar werthoedd mewn gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

Recriwtio a dethol pobl i weithio mewn gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â recriwtio a dethol pobl i gyflawni rolau a ddynodwyd mewn gwaith chwarae. Mae’n berthnasol i reolwyr ac arweinyddion sy’n gyfrifol am recriwtio a dethol staff ar gyfer eu sefydliad neu eu maes cyfrifoldeb penodol nhw.

Mae rhaid i recriwtio a dethol mewn gwaith chwarae adlewyrchu’r Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer y sector, sicrhau diogelwch a lles plant, a chydymffurfio gyda gofynion recriwtio mwy diogel ar gyfer rolau sy’n gweithio gyda phlant.

**Mae’r safon hon yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y mae rhaid i weithwyr chwarae eu deall a, ble fo’n bosibl, eu harddangos trwy eu hymarfer a’u myfyrio.**

**Ceir geirfa i gynorthwyo gyda dealltwriaeth o’r derminoleg a ddefnyddir.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Adolygu’r gwaith sydd ei angen yn eich maes cyfrifoldeb eich hun i ddynodi unrhyw ddiffygion yn y nifer o staff neu eu gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd mewn perthynas ag ymarfer gwaith chwarae
2. Dynodi a gwerthuso’r opsiynau ar gyfer delio gydag unrhyw ddiffygion a ddynodwyd, gan gofio ystyried gofynion gweithlu penodol lleoliad gwaith chwarae
3. Adolygu swydd-ddisgrifiadau a manylebau’r person i sicrhau eu bod wedi eu diweddaru, yn gywir ac yn adlewyrchu’r gwerthoedd, y wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer arddull gwaith chwarae
4. Arddangos bod pob agwedd o’r broses recriwtio wedi eu halinio gyda pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol ar gyfer tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
5. Hysbysebu swyddi gwag i gyrraedd ystod amrywiol o ymgeiswyr posibl a hyrwyddo’r lleoliad gwaith chwarae’n weithredol fel cyflogwr cynhwysol
6. Creu meini prawf teg a chlir ar gyfer asesu a dethol ymgeiswyr sy’n briodol ar gyfer rôl y swydd
7. Sicrhau y cynhelir y broses ddethol mewn modd teg a chyson ac yn unol â deddfwriaethau tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
8. Sicrhau y cwblheir yr holl wiriadau cyn cyflogi angenrheidiol cyn penodi
9. Cynnig y swydd i’r ymgeisydd sy’n cyflawni’r meini prawf dethol orau
10. Cynnig adborth clir, cywir ac adeiladol i ymgeiswyr aflwyddiannus yn unol â pholisi’r sefydliad
11. Gwerthuso llwyddiant y broses recriwtio a dethol a dynodi unrhyw feysydd i’w gwella.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae a sut y gellir rhoi pob un o'r egwyddorion ar waith yn eich rôl arweinyddol chi
2. Hawliau plant a sut i'w cymhwyso i chwarae a gwaith chwarae
3. Egwyddorion a gwerthoedd sy'n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut i'w harwain a'u rheoli mewn ymarfer gwaith chwarae
4. Deddfwriaethau a pholisïau perthnasol a sut y maent yn berthnasol i'ch maes cyfrifoldeb chi
5. Y gofynion cyfreithiol perthnasol i sicrhau tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a sut y cânt eu hybu mewn ymarfer gwaith chwarae
6. Sut y mae polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae
7. Arferion gorau ar gyfer recriwtio mwy diogel staff i rolau gwaith chwarae
8. Safonau a chanllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â staffio sy'n berthnasol i'ch sefydliad chi
9. Amrywiol ffactorau sy'n cyfoethogi cadw staff gwaith chwarae
10. Sut i gael cyflogeion a rhanddeiliaid eraill i ymgysylltu gyda gweithgareddau recriwtio, dethol a chadw staff mewn cyd-destun gwaith chwarae
11. Ble i gyrchu adnoddau arbenigol a chanllawiau rheoliadol sy'n berthnasol i recriwtio staff gwaith chwarae
12. Sut i adolygu'r llwyth gwaith yn eich maes eich hun er mwyn dynodi diffygion yn y nifer o staff a'r gronfa wybodaeth, sgiliau a gallu sy'n berthnasol i waith chwarae
13. Gwahanol opsiynau ar gyfer delio gyda diffygion staffio a ddynodwyd a'u manteision a'u hanfanteision cysylltiedig, yn cynnwys defnyddio gwirfoddolwyr, prentisiaid neu staff rhan amser mewn lleoliadau gwaith chwarae
14. Yr hyn ddylai swydd-ddisgrifiadau a manylebau'r person eu cwmpasu mewn cyd-destun gwaith chwarae, yn cynnwys yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, cyfrifoldebau diogelu a'r rhinweddau sy'n gysylltiedig â dull seiliedig ar asedau tuag at blant
15. Gwahanol ddulliau recriwtio a dethol a'u manteision a'u hanfanteision cysylltiedig, yn cynnwys sut i asesu ar gyfer gwerthoedd ac athroniaeth chwarae yn ogystal â chymwysterau a phrofiad
16. Deddfwriaethau, canllawiau statudol ac arferion gorau recriwtio mwy diogel ar

gyfer rolau sy’n gweithio gyda phlant
17. Sut i ddatblygu meini prawf dethol yn seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a chymhwysedd, eu gwerthoedd a’u hagwedd tuag at chwarae plant, a’u potensial i weithio’n effeithlon o fewn tîm gwaith chwarae
18. Yr hyn yw dull seiliedig ar asedau tuag at blant a’u chwarae, a sut i asesu’r anian hon yn ystod y broses ddethol
19. Sut i fesur cymhwysedd a gallu ymgeiswyr ac asesu os ydynt yn cyflawni gofynion technegol yn ogystal â gofynion seiliedig ar werthoedd y swydd wag
20. Sut i ystyried gofynion tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn cynnwys deddfwriaethau perthnasol, wrth recriwtio, dethol a chadw staff, a sut y mae hyn yn cysylltu gyda dyletswydd y lleoliad gwaith chwarae i gynnwys pob plentyn
21. Technegau holi a gwrando gweithredol sy’n berthnasol i gyfweld ymgeiswyr ar gyfer rolau gwaith chwarae
22. Pwysigrwydd diweddaru ymgeiswyr ynghylch datblygiad y broses recriwtio a sut i wneud hynny
23. Pwysigrwydd darparu adborth clir, cywir ac adeiladol i ymgeiswyr aflwyddiannus a sut i wneud hynny
24. Sut i adolygu effeithiolrwydd prosesau recriwtio a dethol yn eich maes eich hun, yn cynnwys yng nghyd-destun amrywiaeth a chydymffurfio â recriwtio mwy diogel.

## Geirfa

Datblygwyd geirfa i'w defnyddio ar y cyd â'r NOS hyn. Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr y NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun penodol nhw. Mae'r Eirfa ar gael ar: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu neu trwy e-bostio adolygiadnos@chwarae.cymru

## Cysylltiadau Allanol

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

Recriwtio a dethol pobl i weithio mewn gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | UK Playwork NOS Consortium |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Awst 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 03 Awst 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | UK Playwork NOS Consortium |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Addysgwyr Proffesiynol, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae; Gwaith Chwarae; Plant a phobl ifanc |

Arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill. Mae hyn yn cynnwys cefnogi â’r gwaith o ddatblygu arferion sy’n cefnogi hawliau, cynhwysiant a llesiant unigolion, ac yn hybu diogelu. Mae’r safon yn ymdrin â datblygu a gwerthuso ymarfer ataliol ac mae’n cynnwys gweithredu mewn perthynas ag achosion o niwed neu gamdriniaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau mynediad at bolisïau a gweithdrefnau diogelu yn eich gweithle
2. sicrhau mynediad at wybodaeth am y gofynion diogelu a'r asesiadau risg ar gyfer unigolion
3. hybu diwylliant sy'n gwreiddio diogelu mewn arferion bob dydd
4. annog eraill i gefnogi annibyniaeth, hyder a hunan-barch unigolion er mwyn sicrhau eu diogelwch personol a'u gallu i wneud penderfyniadau
5. hybu diwylliant sy'n grymuso unigolion i fynegi eu hanghenion, eu meddyliau a'u hemosiynau ynghylch diogelwch personol a diogelu
6. modelu arferion sy'n dangos gwerthfawrogiad a pharch at farn, dewisiadau a phenderfyniadau unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol er mwyn cefnogi canlyniadau
7. caffael a chefnogi unigolion ac eraill i gael gafael ar adnoddau, dyfeisiau ac adnoddau digidol, a'u defnyddio, i gefnogi diogelwch personol
8. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi ymddygiad, sefyllfaoedd ac arwyddion a allai fod yn niweidiol neu'n gamdriniol, a chymryd camau i leihau'r risgiau hyn neu gael gwared arnynt yn gyfan gwbl
9. gweithredu a chefnogi eraill i ddilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu pan fydd niwed neu gamdriniaeth yn cael ei amau neu ei ddatgelu
10. arwain y gwaith o hybu cydweithio ag eraill i ddiogelu unigolion
11. rhannu gwybodaeth ac asesiadau risg i lywio arferion diogelu a chefnogi eraill i wneud hynny
12. gwerthuso effeithiolrwydd systemau diogelu ac arferion ataliol
13. grymuso unigolion ac eraill i gyfrannu at y gwaith o werthuso systemau diogelu ac arferion ataliol
14. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi, adolygu a gweithredu unrhyw newidiadau sydd eu hangen i systemau diogelu ac arferion ataliol
15. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
16. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o niwed, camdriniaeth, esgeulustod ac ecsbloetiaeth
2. beth yw ystyr ymddygiad y cyflawnwr a meithrin perthynas amhriodol, yr arwyddion, sut y gall godi a'r camau i'w cymryd
3. beth yw bwlio, yr arwyddion, sut y gall godi, a'r camau i'w cymryd
4. dylanwad pŵer a sut i sicrhau nad yw'n cael ei gamddefnyddio gan eraill i guddio pryderon diogelu
5. y ffactorau a allai gynyddu'r perygl o niwed neu gamdriniaeth
6. sut mae gwreiddio niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol mewn arferion diogelu
7. yr arwyddion a allai ddangos bod unigolion neu eraill mewn perygl o gael eu niweidio neu eu cam-drin, neu eu bod wedi bod mewn perygl yn y gorffennol
8. y mathau o gamau, hepgoriadau, ymddygiad a sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol neu'n gamdriniol, a gwahanol ganfyddiadau o hyn
9. cyfnodau pontio ym mywydau unigolion a allai olygu bod mwy o berygl iddynt gael eu niweidio a'u cam-drin
10. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ddiogelwch personol a diogelu
11. y ddyletswydd foesol a moesegol i arwain ymarfer sy'n hybu'r gwaith o ddiogelu unigolion, ac eraill, ac i amddiffyn y cyhoedd yn ehangach
12. eich prif rôl ataliol o ran diogelu unigolion ac eraill, a goblygiadau methu â gweithredu
13. sut mae cefnogi chwythwyr chwiban i ddod ymlaen
14. rôl asesiadau risg, rheoli risg a chymryd risgiau cadarnhaol wrth ddiogelu unigolion ac eraill
15. sut mae grymuso eraill i gymryd camau cywir os bydd niwed neu gamdriniaeth yn cael ei amau neu ei ddatgelu
16. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i nodi a rhoi gwybod am niwed neu gamdriniaeth, a pham y gallai fod yn anodd iddynt wneud hynny
17. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ddiogelu
18. rôl hyder a hunan-barch unigolion ac eraill o ran sicrhau diogelwch personol
19. sut mae adnabod a lleihau risgiau diogelu sy'n gysylltiedig â defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol ar-lein
20. sut mae cefnogi'r gwaith o ddiogelu eich hun ac eraill mewn lleoliad gwaith neu

wrth weithio ar eich pen eich hun

21. yr hyn a ddysgwyd o adolygiadau i fethiannau difrifol er mwyn amddiffyn pobl rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod neu ecsbloetiaeth, a sut i roi’r hyn a ddysgwyd ar waith
22. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i ddiogelu unigolion ac eraill
23. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddiogelu unigolion ac eraill
24. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i ddeall a dilyn gwybodaeth, asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud â diogelu
25. sut mae gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i werthuso effeithiolrwydd systemau diogelu ac arferion ataliol
26. pwysigrwydd cadw tystiolaeth sy’n gysylltiedig â niwed a chamdriniaeth posibl, a sut mae helpu eraill i wneud hyn
27. pryd y mae'n rhaid i chi rannu gwybodaeth a fyddai fel arall yn gyfrinachol, a sut mae helpu eraill i wneud hyn
28. pam ei bod yn bwysig cofnodi ac adrodd ffeithiau wrth ddiogelu, a sut mae helpu eraill i wneud hyn
29. beth i'w wneud os ydych chi neu eraill wedi rhoi gwybod am bryderon ond nad oes camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw
30. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
31. theorïau sy’n berthnasol i arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
32. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
33. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill
34. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain y gwaith o ddiogelu unigolion
35. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill, a sut i fynd i'r afael â hyn
36. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth ddiogelu unigolion ac eraill

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Arwain y gwaith o ddiogelu unigolion ac eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD44 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Diogelu Unigolion ac eraill, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |